# LGBTQ+ Victory Institute - Cynhadledd Ryngwladol LHDTC+ 2024 Washington DC

## Hannah Blythyn AS

Ym mis Rhagfyr 2024, ymunais â channoedd o arweinwyr, swyddogion ac eiriolwyr etholedig LHDTC+ o bob cwr o'r byd ar gyfer $40^{fed}$ Cynhadledd Flynyddol Arweinwyr LHDTC+ yn Washington DC. Roedd y gynhadledd dridiau yn cynnwys gweithdai, sesiynau cyfarfod llawn, trafodaethau panel a llu o gyfleoedd rhwydweithio. Roedd llawer o'r rhai oedd yn bresennol yn gynrychiolwyr etholedig o ddeddfwrfeydd taleithiau'r Unol Daleithiau, a oedd yn cynnig cyfle dysgu defnyddiol i ganfod rhagor am sut maen nhw'n gweithredu, yn enwedig o ran deddfwriaeth aelodau unigol a'r rhyngweithio rhwng y llawer o lefelau gwahanol o ddemocratiaeth yn UDA.




Cynhaliwyd y gynhadledd yng Ngwesty'r JW Marriott ac roedd y diwrnod cyntaf yn cynnwys rhywbeth yn benodol ar gyfer cynrychiolwyr etholedig. Clywsom gan ystod o siaradwyr, gan gynnwys y Seneddwr Tammy Baldwin yn ogystal â Chynrychiolwyr o Ddeddfwrfeydd Taleithiau ac eraill. Roedd sesiynau ymarferol defnyddiol hefyd yn canolbwyntio ar greu rhwydweithiau a chynyddu cynrychiolaeth LHDTC a phresenoldeb gwleidyddol.

Roedd rhai pwyntiau allweddol o'r gynhadledd yn cynnwys:

- Dysgu rhagor am rôl deddfwrfeydd y Taleithiau yn UDA a'r cyfleoedd posibl y gallai fod i'r Senedd feithrin perthynas â nhw.
- Meithrin dealltwriaeth o ffurf a gwerth rhwydweithiau / cawcwsau / grwpiau LHDTC+ ar gyfer cynrychiolwyr o fewn deddfwrfa benodol. Mae hyn yn rhywbeth rydw i bellach yn ei archwilio cyn y Seithfed Senedd.
- Cyfnewid gwybodaeth a syniadau am heriau cyffredin, yn amrywio o:
    - cynyddu cynrychiolaeth LHDTC+
    - yr ymosodiadau ar y gymuned draws
    - beth mae AI yn ei olygu i ddemocratiaeth a dylanwadu ar bolisi / arferion
    - gwersi i gynrychiolwyr LHDTC+ am fwrw ymlaen ag ymgyrchoedd / materion / cynigion polisi a llawer mwy.

Roedd presenoldeb yn y gynhadledd yn fuddiol o ran cyfnewid syniadau a allai gyfrannu at y Cyfarfod Llawn, pwyllgorau ac agweddau eraill ar waith yn y Senedd (rwyf eisoes wedi codi hyn mewn Cwestiynau Llafar), ond hefyd yn ehangach o ran rhwydweithiau seneddol LHDTC+ ac yn y blaen. Roedd hefyd yn darparu llwyfan i hyrwyddo ein senedd fel un sy'n dyheu am fod (ac yn ymfalchïo mewn bod) yn fodern, gynhwysol a blaengar.

Roedd croeso mawr i bresenoldeb o Gymru yn y gynhadledd ac roedd cynrychiolwyr yn awyddus i ddysgu rhagor am ein democratiaeth ddatganoledig, o ran ffurf a swyddogaeth yn ogystal â'n hymrwymiad i gynhwysiant a chydraddoldeb LHDTC+. Gobeithio y byddaf yn gallu croesawu gwesteion rhyngwladol y cyfarfûm â hwy y gynhadledd i'r Senedd rywbryd.
Manteisiais ar y cyfle hefyd i siarad am Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru a rhwydwaith LHDTC+ y Senedd ei hun. Hefyd, o ystyried y cyd-destun rhyngwladol presennol, roedd presenoldeb yn arddangosiad cadarn o undod a chefnogaeth i'r gymuned LHDTC+ etholedig yn UDA a gwledydd eraill ledled y byd lle mae hawliau a chynrychiolaeth o dan fygythiad difrifol.

**Hefyd…**

Roeddwn yn awyddus i wneud y mwyaf o'r amser cymharol fyr roeddwn yn Washington DC a threfnais gyfarfodydd ychwanegol gyda Phwyllgor Moeseg Tŷ'r Gyngres ac yng Nghanolfan Brofiad Airbus.

**Pwyllgor Moeseg Tŷ'r Gyngres**

Cyfarfûm ag uwch staff a chwnsler o Bwyllgor Moeseg Tŷ'r Gyngres yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd. Cynhaliwyd y cyfarfod yn eu swyddfeydd ar Capitol Hill ac roedd yn gyfle i rannu gyda nhw yr ystod o waith diwygio y mae ein pwyllgor yn ei wneud ynghylch Atebolrwydd Aelodau Unigol. Roedd ganddynt ddiddordeb arbennig yng ngwaith arloesol y pwyllgor ynghylch dichell fwriadol ac yn fwy cyffredinol i ddysgu rhagor am y Senedd ei hun. Roedd y cyfarfod hefyd yn gyfle i ddysgu rhagor am sut roedd eu proses safonau yn gweithio yn ymarferol. Un o'r canfyddiadau o ddiddordeb arbennig ac yr wyf wedi bwydo yn ôl i'r pwyllgor arno, yw pan roddir sancsiynau yno yn erbyn aelod, mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol.



**Tîm Cysylltiadau Airbus â‘r Llywodraeth, Washington DC**




Trefnodd Airbus UK i gydgysylltu cyfarfod gyda'u tîm cysylltiadau â’r Llywodraeth yng nghanol Washington DC (mae ganddyn nhw bencadlys ychydig y tu allan i'r brifddinas ei hun) a rhes gydosod derfynol yn Mobile Alabama sy'n cyflogi dros 2000. Roedd y cyfarfod yn nodedig o safbwynt pwyllgor fel aelod o'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig ac etholaethol hefyd gan fod Airbus yn gyflogwr mawr yn fy ardal.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar ôl yr Etholiad Arlywyddol a chyn i'r Arlywydd Trump ailafael yn ei swydd, ond roedd bwgan tariffau eisoes yn codi a buom yn trafod yr hyn y gallai'r weinyddiaeth newydd ei olygu i'r cwmni. Nid yw'r sector hedfan yn destun unrhyw dariffau yn fyd-eang ar hyn o bryd. Roeddwn hefyd yn gallu cynghori ar rywfaint o waith Pwyllgor yr Economi a rhoi cyflwyniad bras iddynt ar ein Senedd. Fe wnes i hefyd estyn gwahoddiad i ymweld â ni pe baent yn dod i’r DU nesaf.